

## CLWB CINIO DDYDD GWENER

Rydym yn drist iawn nad ydym ni wedi medru cwrdd ers mis Mawrth ac rydym yn colli pob un ohonoch yn fawr. Roedd yn bleser cwrdd â rhai ohonoch am ychydig yn ein picnic yn yr awyr agored ym mis Medi. Fodd bynnag, yn anffodus nid ydym ni wedi llwyddo i gynnal picnic arall ers hynny oherwydd y tywydd anffafriol.


Bu inni golli dau ffrind annwyl yn ystod y misoedd diwethaf - Helen a Lillibet. Buon nhw'n aelodau annatod o'r grŵp ddydd Gwener ers y cychwyn cyntaf ac fe fyddwn yn eu colli'n enfawr.

Rydym yn edrych ymlaen at amser lle bydd modd inni gwrdd unwaith eto pan fyddwn wedi goresgyn y pandemig hwn. Fodd bynnag dydy'r sefyllfa ddim yn edrych yn addawol iawn ar hyn o bryd.

Yn y cyfamser, hoffem ddymuno Nadolig heddychlun a diogel ichi i gyd – gobeithio y bydd llawer o bethau i edrych ymlaen atyn nhw yn 2021!

Cadwch mewn cysylltiad!

Eunice a Nen



Yn anffodus, yn sgil Covid-19, fe fydd ein caffi wedi cau tan Basg 2021 ar y cynharaf.

Mae ein hystafelloedd yn dal ar agor, os gaiff ei ganiatáu.

Hoffem ddymuno  
Nadolig llawen a diogel i bawb  
a Blwyddyn Newydd dra  
gwahanol!

Carrie a Mike

### Neges gan Sue Davies



Hoffai Sue a'i theulu ddiolch i bawb am eu cyfeillgarwch gyda'u cardiau a negeseuon o gefnogaeth yn dilyn colled yr annwyl Ned. Bydd colled dirfawr ar ei ôl.